

IONAWR - EBRILL / JANUARY - APRIL 2018


# DIGWYDDIADAU EVENTS



CANOLFAN DYSGU GYDOL OES  
**Garth Olwg**  
LIFELONG LEARNING CENTRE



**RHONDDA CYNON TAF**



## Canllaw Arwyddion | Icon Guide



Cymraeg  
Welsh



Saesneg  
English



Bar ar gael  
Bar available



Gostyngiad  
Concession



Addasrwydd oedran  
Age suitability

## Oriau Agor | Opening Hours:

Llun - Iau | Monday - Thursday **9am – 9.30pm**  
Gwener | Friday **9am – 7pm**



📞 01443 570075

@llreception@campwsgartholwg.org.uk

📍 CF38 1RQ

[www.gartholwg.org](http://www.gartholwg.org)

 Gartholwg Lifelong Learning Centre

 @gartholwgllc

46971-55 Tachwedd | November 2017

Y Cabinet a Chysylltiadau Cyhoeddus | Cabinet & Public Relations

## POEM AND A PIE

**Nos Wener 9 Chwefror**

**Friday 9 February**

**6:30pm**

Am Ddim | Free

Noson i lansio'r llyfr cerddi, *This Carrot is Red* yng nghwmni'r siaradwraig wadd a'r bardd Clare Potter. Bydd yna gyfle i'r beirdd a'r unigolion rannu eu gwaith ag eraill trwy ei berfformio'n gyhoeddus ar y noson. Sesiwn meic agored i ddilyn. Darperir pei a bar ar y noson.

Noson trwy gyfrwng y Saesneg.

A night to launch the Garth Olwg Writing Club's book, *This Carrot is Red* in the company of guest speaker and poet Clare Potter. It will be an opportunity for members to share their work and perform their published poems. Followed by an open mic for anyone else to share their work. Pie and bar provided on the night.

This is an English language evening.



Cyd-Gynhyrchiad Theatr Pena  
Taliesin Arts Centre Co-Production

# WOMAN OF FLOWERS

by/gan SIÔN EIRIAN

after/gan ddilyn SAUNDERS LEWIS

**Nos Sadwrn 10 Chwefror**

**Saturday 10 February**

**7:30pm**

£14 / £12



Dyw Blodeuwedd ddim fel merched eraill. Fe'i consuriwyd o flodau gwyllt gan y dewin Gwydion a'i rhoi'n wraig berffaith i'r tywysog a'r rhyfelwr Llew, ond mae gwylltneb natur yn rhan o'i gwead a phan ddeffroir ei nwydau synhwyrus mae'r canlyniadau yn rhai gwaedlyd a brawychus.

Mae Theatr Pena yn dychwelyd gyda cyd-gynhyrchiad cyntaf y Cwmni gyda Chanolfan y Celfyddydau Taliesin, gyda llwyfaniad deinamig a gweledol gyffrous o hen chwedl am frad a dial.

Mae Woman of Flowers yn addasiad barddonol cyhyrog o chwedl Blodeuwedd o'r Mabinogi gan yr awdur Cymraeg arobryn Siôn Eirian, ac mae'n cyfuno elfennau o ddrama fydryddol enwog Saunders Lewis gyda deunydd gwreiddiol i greu ffantasi hudolus a thywyll.

Mae hwn yn gynhyrchiad trwy gyfrwng y Saesneg.

**Hyd:** Tua 1 awr 20 munud [heb egwyl]

*Gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru trwy gynllun Celfyddydau Perfformio Teithiol Cenedlaethol*

*Gyda chefnogaeth ychwanegol gan Curo Advisers Limited a'u partneriaid strategol.*

Blodeuwedd isn't like other women. Conjured from wild flowers by the wizard Gwydion to be the perfect wife for the warrior prince Llew, nature's wild waves surge in her blood and when the dark desires woven into her nature are awakened the consequences are bloody for all around her.

Theatr Pena return with the Company's first co-production with Taliesin Arts Centre, a dynamic and visually rich production of a very ancient tale of betrayal and retribution.

Woman of Flowers is a strikingly poetic reimagining of the Mabinogi myth of Blodeuwedd by award-winning Welsh writer Siôn Eirian in which he skilfully combines Saunders Lewis's Welsh language verse drama of the same name with original material to create a captivating dark fantasy.

This is an English Language Production

**Running Time:**

Approx. 1 hour 20 minutes [no interval]

*Supported by the Welsh Government and the Arts Council of Wales through the National Performing Arts Touring Scheme*

*With additional support from Curo Advisers Limited and their strategic partners.*

Y Fran Wen yn cyflwyno /present

# WY, CHIPS A NAIN

**Dydd Mawrth 27 Chwefror**

**Tuesday 27 February**

**10:15<sup>am</sup> • 1:30<sup>pm</sup> £8**



Stori deuluol a gwirioneddol hyfryd sy'n dathlu'r berthynas unigryw rhwng Nain a'i wŷr.

Mae Guto yn caru treulio amser gyda'i Nain. Trip cwch i lwerddon, picnic ar lan y môr, fflagiau semaffor a thylwyth teg yn troi plant yn selsig!

Ond mae'r antur fwyaf eto i ddod...

Wedi ei ysgrifennu gan Gwyneth Glyn, mae Wŷ, Chips a Nain yn ddarlun gonest o bwysigrwydd cariad, cyfeillgarwch a hwyl rhwng dwy genhedlaeth wrth wynebu bywyd gyda dementia.

Cynhyrchiad trwy gyfrwng y Gymraeg.

A truly heart-warming family tale celebrating the unique relationship between grandparent and grandchild.

Guto loves spending time with his Nain. A boat trip to Ireland, picnics by the sea, semaphore flags and fairies turning children into sausages!

But their biggest adventure is yet to come...

Written by Gwyneth Glyn, Wŷ, Chips a Nain (Egg, Chips & Grandma) is an honest portrayal of love, friendship and fun between two generations when facing life with dementia.

This is a Welsh language production.



# GWEITHDAI HANNER TYMOR I BLANT

**20 - 22 Chwefror**

## HALF TERM WORKSHOPS FOR CHILDREN

**20 - 22 February**

**10:00<sup>am</sup> - 11:00<sup>am</sup>  
1:00<sup>pm</sup> - 2:00<sup>pm</sup>**

£2 y sesiwn / per session





Dydd Mawrth 20 Chwefror:  
**GWEITHDY PYPEDAU**

Dewch i greu pypedau amrywiol gan ddefnyddio deunydd gwahanol. Bydd yna gyfle i greu pyped hosan a phyped bys ffon lolipop yn ogystal â defnyddio'r pypedau i greu sioe fer ar ddiwedd y sesiwn.

Dydd Mercher 21 Chwefror:  
**GWEITHDY CREU OFFERYNNAU**

Dewch i greu offerynnau lliwgar yn y gweithdy yma. Bydd yna gyfle i greu amrywiaeth eang o offerynnau gan ddefnyddio deunyddiau wedi'u ailgylchu.

Dydd Iau 22 Chwefror:  
**CREFFTAU GŴYL DDEWI**

Dewch i fwynhau gwledd o grefftau Cymreig i ddatlu Dydd Gŵyl Dewi! Dyluniwch ddraig ddychrynlyd neu dewch i greu Cenhinen Pedr. Digon i wneud felly dewch yn llw.

Mae'r gweithdai yn addas i blant 5-11 oed, maen nhw'n ddwyieithog felly mae yna groeso i bawb. Ffoniwch y Ganolfan i gadw lle 01443 570075.

Tuesday 20 February:  
**PUPPET WORKSHOP**

Come and create a variety of puppets using different materials. There will be the opportunity to make a sock puppet a finger puppet and puppet using lollipop sticks. There will also be a chance to use the puppets to put together a short show at the end of the session.

Wednesday 21 February:  
**MUSICAL INSTRUMENT WORKSHOP**

Come and create magnificent musical instruments in this workshop. There will be the chance to create a variety of different instruments using recycled materials.

Thursday 22 February:  
**ST DAVID'S DAY CRAFTS**

Come and enjoy a workshop full of fun with plenty of Welsh crafts available to make and take home ready for St David's Day! Dare to design and make your very own fire breathing dragon, or why not make a pin wheel daffodil. Plenty to do so come along

The workshops are suitable for children age 5-11. The workshops will be run bilingually so everyone is welcome. Ring the Centre to book a place 01443 570075.



## CYNGERDD GŴYL DDEWI TENOVUS

Nos Iau 1 Mawrth

## ST DAVID'S DAY CONCERT

Thursday 1 March

7pm

£5




**tenovus**  
cancer care  
gofal cancer

Cyngerdd i ddathlu Dydd Gŵyl Ddewi ac i godi arian ar gyfer Gofal Cancer Tenovus. Bydd perfformiadau gan Gôr Tenovus Pontypridd 'Sing with us', Côr O2Five, Grŵp Ukulele Garth Olwg a pherfformwyr lleol eraill. Gwledd o gerddoriaeth i fwynhau ar y noson! Dewch i fwynhau noson o adloniant difyr gyda'r teulu yn y Ganolfan. Bydd lluniaeth ysgafn ar werth ar y noson hefyd.

Tenovus Cancer Care's Celebration of St David's Day Concert.

Featuring Tenovus Cancer Care's Sing with Us Pontypridd Choir, O2Five Choir, Garth Olwg's Ukulele group and other local performers. A feast of music to enjoy on the night! It's an evening not to be missed with excellent entertainment suitable for all the family. Light refreshments will be on sale during the evening too.



**Theatr Genedlaethol Cymru**  
mewn cydweithrediad â  
in association with  
**Pontio**

## Y TAD

gan/by Florian Zeller

**Dydd Gwener 16 Mawrth**

**Friday 16 March**

**1pm • 7pm**

£12 / £10



“Mae 'na bethau rhyfedd yn digwydd o'n cwmpas ni.  
Wyt ti'm 'di sylwi?”

Mae byd y tad a'i ben i waered. Pwy ydi'r bobl ddieithr yma yn ei dŷ? Ai ei dŷ o ydi hwn, tybed? Dyma stori ddirdynnol am ŵr sy'n methu a deall yr hyn sy'n digwydd iddo pan fo'i gof yn dadfeilio, a merch sy'n ceisio dygymod â salwch ei thad.

Trosiad newydd i'r Gymraeg o Le Père, enillydd Gwobr Molière 2014 am y Ddrama Orau, ac enillydd cystadleuaeth Trosi Drama i'r Gymraeg, Eisteddfod Genedlaethol Cymru, 2016.

“Dwi yn 'y nhŷ fy hun, tydw? Yndw?... Nach'dw?...  
Y nhŷ i ydi hwn, yndê?”

Mae hwn yn gynhyrchiad trwy gyfrwng y Gymraeg.  
Mynediad i'r di-gymraeg drwy gyfrwng ap Sibrwd.

“There are strange things happening around us.  
Haven't you noticed?”

The father's world is topsy-turvy. Who are these strangers in his house? Is it, his house at all? This is a heart-rending story about a man who is failing to understand what is happening to him as his memory crumbles, and a daughter who is struggling to come to terms with her father's illness.

A new Welsh adaptation of Le Père, winner of the Molière Award 2014 for the Best Play, and winner of the competition to Translate a Play into Welsh at the National Eisteddfod of Wales, 2016.

“I'm in my own house, aren't I? Am I?... No?...  
This is my house, isn't it?”

This is a Welsh-language production.

The Sibrwd app provides a live audio translation for non-Welsh speakers and Welsh beginners.

**Cyfarwyddwr / Director:**

Arwel Gruffydd

**Cast:** Dyfan Roberts, Catrin Mara, Dafydd Emyr,  
Fflur Medi Owen, Rhodri Siôn, Mirain  
Fflur

**Trosiad Cymraeg gan / Welsh translation by:**

Geraint Løvgreen



## DIWRNOD CREFFTAU I OEDOLION

**Dydd Sadwrn  
17 Mawrth**

## ADULT CRAFT DAY

**Saturday 17 March**

**10:00<sup>am</sup> - 2:00<sup>pm</sup>**

£20  
am 1 gweithdy  
per workshop



Yn dilyn poblogrwydd a llwyddiant Diwrnod Crefftau Llynedd bydd y Ganolfan yn cynnal diwrnod arall o weithdai.

Dysgwch grefft gwbl newydd neu perffeihiwch sgil presennol yn y gweithdai hyn.

Dewiswch un o'r gweithdai canlynol:

- Addurno cacennau bach
- Gosod blodau
- Creu Basged
- Creu gemwaith
- Creu sebon suo a halwynau ymolchi

I gadw lle ar un neu fwy o'r gweithdai gallwch ffonio'r Ganolfan ar **01443 570075**

Following the popularity and success of last year's Craft Day the Centre will hold another day of workshops.

Learn an entirely new craft or perfect an existing skill in these one-off workshops.

Choose one from the following workshops:

- Cupcake Decorating
- Flower arranging
- Basket Making
- Jewellery making
- Bath bomb and salt making

To book a place on one or more of the workshops please call the Centre on **01443 570075**





Sioe bypedau gan  
**PuppetSoup**

DAU BERFFORMIAD | DOUBLE BILL

# JACK & THE MEMORY KEEPER

**Sadwrn 24 Mawrth**

**Saturday 24 March**

**10<sup>am</sup> - 1<sup>pm</sup>**

£5 / £15 Tocyn Teulu / Family Ticket



Dewch i fwynhau dwy sioe bypedau arbennig gan PuppetSoup.

Addasiad o Jac a'r Goeden Ffa sy'n llawn hiwmor a hwyl, a'r llall yw'r 'Memory Keeper'. Sioe ddfyfr am yr amgylchedd a sut mae un ferch yn mynd ati i arbed y byd o'u chwmpas ac edrych ar ôl yr holl anifeiliaid sydd yn cael eu heffeithio gan y newidiadau i'r amgylchedd. Yn ogystal â'r ddwy sioe cewch gymryd rhan mewn gweithdy crefft i greu pypedau eich hunain. Hefyd bydd yna gyfle i fynd tu ôl llwyfan i weld sut mae'r sioeau yn cael eu creu.

Cewch gyfle i gwrrd â'r pypedau ar ddiwedd y sioeau.

Bydd y sioe a'r gweithdai yn ddwyieithog felly croeso i bawb. Mae'r sioeau yn addas i deuluoedd, ac i blant o 5 oed neu'n hŷn.

Come and enjoy a fantastic new double bill from five star, multi award winning Welsh theatre company PuppetSoup.

Enjoy TWO thirty minute shows combining one classic comedy with a modern twist in the tale of 'Jack', followed by a beautiful and moving tale about the environment in 'The Memory Keeper'. Originally created with the RSPB and inspired by the writings of Joann Rae, 'The Memory Keeper' tells a touching story of a child's determination to save the environment that is being destroyed around her, and one man's realisation of what he has become. Using puppets, set and masks made from recycled materials, PuppetSoup awaken a utopia of wildlife and environment in this captivating and dramatic thirty minute show.

You'll have the opportunity to take part in a puppet making workshop, technical and set tour and a meet-and-greet sessions with the puppets after the show.

The show and workshop will be bilingual so everyone is welcome. The shows are suitable for families and children who are 5+.

# Y GALERI THE GALLERY

Gartholwg has a gallery and exhibition space in which we display and sell the work of local artists and crafts people.

We are always on the lookout for local makers to exhibit and sell so if you are looking for the ideal setting to sell your work then please contact us.

Mae gan Gartholwg galeri ac ardal arddangos ble mae artistiaid a chreftwyr lleol yn arddangos a gwerthu eu gwaith.

Rydym yn awyddus iawn i ddenu creftwyr newydd felly os oes diddordeb gennych i arddangos eich gwaith mewn lleoliad delfrydol cysylltwch â ni.

☎ 01443 570075

@ llcreception@campwsgartholwg.org.uk

**08** to/tan **19**  
Ionawr January  
Ionawr January

**Grwp Celf Cymunedol Garth Olwg**  
**Garth Olwg Community Art Group**

**22** to/tan **02**  
Ionawr January  
Chwefror February

**Dosbarth Croesbwyth Garth Olwg**  
**Garth Olwg Cross Stitch Class**

**05** to/tan **16**  
Chwefror February  
Chwefror February

**Ysgol Tŷ Coch**

**19** to/tan **02**  
Chwefror February  
Mawrth March

**Clwb Camera Gwynfa**  
**Gwynfa Camera Club**

**05** to/tan **16**  
Mawrth March  
Mawrth March

**Cymdeithas Gelf Llantrisant**  
**Llantrisant Art Society**

**19** to/tan **30**  
Mawrth March  
Mawrth March

**Coleg y Cymoedd, Nantgarw**